PA65 Llywodraeth Cymru

| Senedd Cymru | Welsh Parliament |
| --- | --- |
| Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg | Children, Young People and Education Committee |
| Absenoldeb Disgyblion<br>Ymateb gan Llywodraeth Cymru | Pupil absence<br>Evidence from Welsh Government |

# PAPUR TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG I'R PWYLLGOR PLANT, POBL IFANC AC ADDYSG

## Gweinidog y Gymraeg ac Addysg Mehefin 22

Croesawn y cyfle i ddarparu gwybodaeth i gefnogi ymchwiliad y Pwyllgor i ***Absenoldeb Disgyblion.***

Rydym wedi mynd i'r afael â phob un o feysydd diddordeb y Pwyllgor isod ac edrychwn ymlaen at drafod ymhellach â'r Pwyllgor ar 29 Mehefin.

### Lefelau absenoldeb cyson a'r rhesymau dros hynny

Cynhaliwyd adolygiad o batrymau presenoldeb yng Nghymru rhwng mis Tachwedd 2021 a mis Ionawr 2022, er mwyn meithrin dealltwriaeth gynhwysfawr o'r rhesymau dros ddiffyg presenoldeb, gan ein galluogi i gynllunio ymyriadau priodol sydd wedi'u teilwra'n benodol i anghenion carfanau penodol neu'r heriau a wynebir ganddynt. Mae copi llawn o'r adroddiad ar gael yma.

Ers mis Medi 2021, mae 12.5% o ddysgwyr wedi bod yn absennol am fwy 30.5 diwrnod neu fwy. Fodd bynnag, dylid nodi bod y gofyniad i ddiogelu dysgwyr nad ydynt yn bresennol yn gorfforol ar safle'r ysgol, wedi golygu bod pob math o ddysgu o bell wedi cael ei ystyried yn absenoldeb yn ystod y pandemig.

Mae'r adroddiad ar bresenoldeb yn cydnabod bod amrywiaeth o resymau neu achosion sylfaenol dros absenoldeb dysgwyr, a bod y sefyllfa wedi gwaethygu dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Nododd y rhai yr ymgynghorwyd â nhw fel rhan o'r adolygiad fod absenoldeb dysgwyr wedi cynyddu ym mhob grŵp o ddysgwyr ac y credir bod achosion cyffredin absenoldeb dysgwyr yn gysylltiedig â'u lles a'u hiechyd meddwl, ymddieithrio ac agweddau mwy hamddenol at ddysgu. Cydnabyddir hefyd y gellir diffinio absenoldebau mewn dwy ffordd: absenoldebau newydd o ganlyniad i COVID-19; ac absenoldebau sy'n bodoli eisoes sydd wedi'u gwaethygu gan y pandemig.

Er ei bod yn ymddangos bod presenoldeb cyffredinol yn gwella, mae cyfraddau presenoldeb yn destun pryder o hyd, yn enwedig cyfraddau absenoldeb anawdurdodedig.

### A yw absenoldebau nad ydynt yn gysylltiedig â COVID yn uwch nag yr oeddent cyn pandemig COVID 19, ac os felly, pam

Mae'r darlun o ran presenoldeb yn un cymhleth na ellir ei gyffredinoli'n hawdd. Gall patrymau a thueddiadau o ran presenoldeb mewn ysgolion unigol newid llawer dros amser ac amrywio'n fawr.

Mae ail ran yr adroddiad yn ystyried dadansoddiad ystadegol mewnol Llywodraeth Cymru o ddata ar bresenoldeb. Dengys data ar gyfer tymor y Gwanwyn 2022 fod absenoldebau nad ydynt yn gysylltiedig â COVID yn uwch na'r gyfradd absenoldeb gyffredinol cyn y pandemig. Fodd bynnag, oherwydd y gwahaniaethau o ran y ffordd y caiff presenoldeb ei ddiffinio ar hyn o bryd, a'r ffordd y caiff data eu casglu a'u cyhoeddi o gymharu â'r hyn a wnaed cyn y pandemig, mae'r adroddiad yn cydnabod ei bod hi'n anodd gwneud cymariaethau cywir am gyfraddau presenoldeb. Mae hyn yn wir hefyd wrth ystyried cymariaethau rhwng gwledydd y DU. Er enghraifft, roedd y ffigurau a gyhoeddwyd ar gyfer Lloegr yn ystod y pandemig yn seiliedig ar arolwg dewisol o ysgolion gyda chyfradd ymateb ddyddiol o rhwng 50-60%, tra bod Llywodraeth Cymru wedi cael bron i 100% o ymateb yn rheolaidd.

### A yw absenoldeb cyson yn fwy cyffredin ymhlith grwpiau penodol o ddisgyblion (y rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, rhai sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, bechgyn a merched, grwpiau oedran penodol, ethnigrwydd) ac os felly, y rhesymau dros hynny

Mae'r dadansoddiad ystadegol y cyfeirir ato yn yr adroddiad ar bresenoldeb yn nodi'r cynnydd sylweddol mewn cyfraddau absenoldeb ymhlith grwpiau penodol o ddysgwyr, yn arbennig dysgwyr Sipsiwn a Theithwyr, dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, a dysgwyr sydd ag ADY. Er nad yw'r cynnydd yn anghymesur â'r hyn a welwyd ymhlith dysgwyr eraill, mae hyn yn destun pryder penodol oherwydd y lefelau uchel o absenoldeb a welwyd ymhlith y dysgwyr hyn cyn y pandemig.

### Dysgwyr sy'n Gymwys am Brydau Ysgol am Ddim

Cyn y pandemig, roedd y gyfradd absenoldeb ymhlith dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn uwch na'r gyfradd ymhlith dysgwyr nad ydynt yn gymwys. Dengys y data fod y bwlch hwn wedi lledu ers dechrau blwyddyn academaidd 2021/22, o 3.8% yn ystod yr wythnos yn dechrau 6 Medi 2021 i 5.3% yn ystod yr wythnos yn dechrau 16 Mai 2022.

O ran absenoldeb cyson, roedd 24.2% o'r dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn absennol am fwy na 30 diwrnod, o gymharu â 8.1% o'r dysgwyr nad ydynt yn gymwys. Mae hyn yn destun pryder penodol gan ei fod yn awgrymu bod yr absenoldebau'n dechrau dod yn arfer. Bydd mynd i'r afael â hyn fel rhan o'n gwaith polisi i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad, yn bwysig iawn. Bydd rôl Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd, y Gwasanaeth Lles Addysg ac asiantaethau allweddol eraill, yn elfen allweddol o'n dull gweithredu.

### ADY

Ers mis Medi 2021, mae 54.7% o'r dysgwyr ag ADY wedi bod yn absennol am 10.5 diwrnod neu fwy ar gyfartaledd, o gymharu â 31% o'r holl ddysgwyr. Mae 16% o'r dysgwyr ag ADY wedi bod yn absennol am 30.5 diwrnod neu fwy o gymharu â 12.5% o'r holl ddysgwyr.

Ar yr olwg gyntaf, mae'r ddau ffigur hyn yn sylweddol uwch na'r hyn a welwyd cyn y pandemig, ond fel y nodwyd uchod, oherwydd y gwahaniaethau o ran y ffordd y caiff presenoldeb ei gofnodi, ei ddadansoddi a'i gyhoeddi ar hyn o bryd o gymharu â'r hyn a wnaed cyn y pandemig, mae'n anodd gwneud cymariaethau am gyfraddau presenoldeb.

Gellid priodoli'r niferoedd hyn i natur fregus disgyblion yn y garfan hon a allai fod yn fwy agored i ddal yr haint, a'r ffaith bod eu teuluoedd yn ceisio bod yn ofalus wrth i achosion godi.

Canfu'r adroddiad ar bresenoldeb fod consensws cyffredinol y dylai agweddau ar y broses ddiwygio ADY helpu i wella presenoldeb ymhlith y dysgwyr hyn, drwy waith cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Dylai hyn arwain at ddealltwriaeth well o'r hyn sy'n bwysig i'r dysgwr a helpu i nodi materion cyn iddynt waethygu, a dylai hefyd helpu o ran ymyrryd yn gynnar. Dylai cyfleoedd datblygiad proffesiynol estynedig hefyd gynyddu ymwybyddiaeth staff o anghenion y dysgwyr hyn.

**Rhyw**

Ers mis Medi 2021, canran y dysgwyr gwrywaidd sydd wedi bod yn absennol am 30.5 diwrnod neu fwy yw 12.2% o gymharu â 12.8% o ddysgwyr benywaidd. Cyn y pandemig, roedd dysgwyr gwrywaidd yn fwy tebygol o fod yn absennol yn gyson na dysgwyr benywaidd, ond fel y nodwyd yn flaenorol, oherwydd y gwahaniaethau o ran y ffordd y caiff presenoldeb ei ddiffinio ar hyn o bryd, a'r ffordd y caiff data eu casglu a'u cyhoeddi o gymharu â'r hyn a wnaed cyn y pandemig, ni ellir gwneud cymariaethau uniongyrchol.

**Ethnigrwydd**

Roedd cyfraddau absenoldeb ymhlith disgyblion o gefndir Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer absenoldebau o 10.5 diwrnod neu fwy a 30.5 diwrnod neu fwy.

**Oedran**

Ar y cyfan, ymhlith dysgwyr Blwyddyn 11 y mae'r gyfradd absenoldeb gyffredinol ar gyfer disgyblion o oedran ysgol statudol wedi bod ar ei gwaethaf, gyda 66.2% o'r dysgwyr yn absennol am 10.5 diwrnod neu fwy, a 22.6% yn absennol am 30.5 diwrnod neu fwy, ar gyfartaledd.

Gwyddom fod rhesymau dros absenoldeb yn cynnwys pryder ymhlith dygwyr yn y grŵp hwn ynghylch arholiadau TGAU, a pha mor barod y byddant i ddychwelyd i'r un model arholiadau ag a ddefnyddiwyd cyn y pandemig. Roedd hyn wedi arwain at bryderon am yr effaith y bydd hyn yn ei chael ar ddeilliannau addysgol tymor hwy, a nifer y dysgwyr a all ddod yn NEET o ganlyniad i hynny. Darparwyd £1.28m o gyllid

ychwanegol yn 2021-22 i ddarparu cymorth penodol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i ddysgwyr Blwyddyn 11 nad ydynt yn mynychu'r ysgol ac nad ydynt yn debygol o gwblhau cymwysterau TGAU.

### Y risgiau a'r canlyniadau tymor byr a thymor hwy i ddysgwyr, er enghraifft o ran iechyd meddwl a llesiant

Mae cysylltiad sefydledig â phresenoldeb, cyrhaeddiad a lles. Fy mlaenoriaeth, uwchlaw popeth arall, yw sicrhau bod pob person ifanc yn cael y cyfle i wireddu ei botensial, beth bynnag fo'i gefndir. Mae mynd i'r afael ag absenoldeb dysgwyr yn allweddol i hyn.

Cydnabu'r adolygiad presenoldeb fod lles ac iechyd meddwl, yn ogystal ag agweddau at ddysgu ac addysg, yn effeithio ar bresenoldeb. Ystyrir bod y gydberthynas rhwng presenoldeb a lles cyffredinol mor gryf nes bod presenoldeb yn aml wedi cael ei ddefnyddio fel mesur procsi mewn perthynas â lles yn y gorffennol. Gwyddom hefyd fod presenoldeb yn cael effaith fawr ar ddeilliannau, safonau a chynnydd dysgwyr. Er enghraifft, mae cysylltiad cryf rhwng canlyniadau arholiadau a chyfraddau presenoldeb.

Mae ein dull ysgol gyfan yn seiliedig a sicrhau bod lles plant a phobl ifanc yn cael ei werthfawrogi yn yr un modd â'u cynnydd a'u cyrhaeddiad. Rhaid i blant a phobl ifanc fod yn barod yn emosiynol ac yn feddyliol i ddysgu a chymryd rhan. Mae gan staff addysgu ac aelodau eraill o staff ysgolion rôl bwysig i'w chwarae, nid yn unig o ran cefnogi lles dysgwyr ond hefyd eu lles eu hunain a lles cymuned ehangach yr ysgol, drwy feithrin diwylliant sy'n gwerthfawrogi lles. Mae hyn yn ganolog i'r canllawiau statudol ar les a gyhoeddwyd gennym ym mis Mawrth 2021, sef y rheswm pam rwyf yn neilltuo mwy na £12m o gyllid yn y flwyddyn gyfredol, fel rhan o becyn o fwy na £43m dros y tair blynedd nesaf, i gefnogi'r broses o'u rhoi ar waith. Defnyddir y cyllid hefyd i feithrin gwydnwch drwy gyflwyno ymyriadau cyffredinol a phenodol mewn ysgolion; hyfforddi staff ysgolion ar les; a sicrhau bod y system ehangach yn gallu cefnogi plant a phobl ifanc drwy wneud yn siŵr eu bod yn cael ymyriadau amserol sy'n briodol i'w hanghenion.

Mae gan weithwyr ieuenctid rôl hanfodol i'w chwarae o ran helpu plant a phobl ifanc i adfer o'r pandemig. Yn 2021-22, neilltuwyd £2.5m ychwanegol i awdurdodau lleol i ddarparu cymorth emosiynol, iechyd meddwl a lles ychwanegol i bobl ifanc. Roedd y cyllid hwn yn galluogi awdurdodau lleol i ehangu ar y gwaith roeddent eisoes yn ei wneud i helpu i sicrhau bod pobl ifanc yng Nghymru yn cael y cymorth yr oedd ei angen arnynt.

Fel rhan o feini prawf y cyllid, roedd disgwyl i awdurdodau lleol weithio gyda gwasanaethau gwaith ieuenctid yn y sector gwirfoddol, ac ariannu gwasanaethau ychwanegol o'r fath, a darparu cymorth i bobl ifanc â nodweddion gwarchodedig a phobl ifanc mewn ardaloedd anos eu cyrraedd, i gynyddu nifer y gwasanaethau atal ac ymyrryd yn gynnar ar gyfer problemau iechyd meddwl a lles lefel isel.

At hynny, roedd y cyllid yn rhoi hwb i adnoddau penodol presennol fel darpariaeth gweithwyr ieuenctid datgysylltiedig ac allgymorth. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant i staff ar gefnogi pobl ifanc â phryderon iechyd meddwl neu les, er mwyn

eu helpu i nodi'r rhai yr oedd angen cymorth arnynt a chydnabod pan fyddai angen atgyfeirio person ifanc at gymorth. Gan fod gwaith ieuenctid yn cwmpasu plant a phobl ifanc 11-25 oed, defnyddiwyd y cyllid mewn rhai ardaloedd i gefnogi pobl ifanc ar gamau pontio allweddol lle roeddent yn debygol o wynebu lefelau uchel o straen, er enghraifft wrth bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

## Yr effaith ar ddysgu a chyrhaeddiad disgyblion

Yn adroddiad blynyddol Estyn ar gyfer 2018-19, daeth y Prif Arolygydd i'r casgliad bod 'cydberthynas agos rhwng presenoldeb yn yr ysgol a deilliannau addysgol, felly mae gwella presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn parhau yn fater pwysig'. Awgrymodd ei dystiolaeth fod yr 'ysgolion gorau yn canolbwyntio ar ysbrydoli athrawon i feithrin perthnasoedd cryf gyda disgyblion ac yn darparu gweithgareddau difyr i fodloni'u hanghenion' a bod disgyblion yn yr ysgolion hyn 'yn gwerthfawrogi dysgu ac eisiau bod yn yr ysgol yn rheolaidd'.

Daeth crynodeb o dystiolaeth ymchwil yn y maes hwn a luniwyd gan Goleg Prifysgol Llundain yn 2020 i gasgliadau tebyg, sef bod cyflawniad academaidd yn dirywio ychydig ymhlith disgyblion nad ydynt yn mynychu'r ysgol pan fo ar agor, a bod pob diwrnod o absenoldeb yn cael effaith negyddol fwy ar ddisgyblion o aelwydydd incwm isel. Am y rhesymau hyn y bydd ffocws ar bresenoldeb yn rhan o'n gwaith polisi i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad, er mwyn sicrhau Safonau ac Uchelgeisiau Uchel i bawb. Bydd gwella cyfraddau presenoldeb pob dysgwr, gan gynnwys y rhai o aelwydydd incwm isel, yn un o'r dangosyddion llwyddiant yn y maes hwn.

## A yw absenoldeb wedi arwain at lefel uwch o ddadgofrestru disgyblion ac unrhyw orgyffwrdd ag addysg ddewisol yn y cartref

O ganlyniad i'r pandemig gwelwyd mwy o blant yn cael eu haddysgu gartref. Bydd y cynigion ar gyfer Addysg Ddewisol yn y Cartref sydd wrthi'n cael eu datblygu yn helpu i sicrhau bod y dysgwyr hynny'n cael addysg effeithlon ac addas. Rydym yn darparu pecyn ehangach o gymorth a fydd yn gwella'r profiad dysgu a'r cyfleoedd datblygu i ddysgwyr sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref, ac yn cynnwys mynediad llawn at yr adnoddau addysgol ar Hwb. Rydym yn annog awdurdodau lleol i gydweithio â theuluoedd mewn ffordd gefnogol er mwyn galluogi'r dysgwyr hyn i ddychwelyd i'r ysgol.

Mae ffigurau gan Data Cymru yn 2021 yn rhoi cipolwg ar y rhesymau sylfaenol a'r ffactorau a all arwain at ddatgofrestru. Rhwng mis Ionawr 2020 a mis Ionawr 2021, nododd 30% o rieni/gofalwyr COVID-19 fel y rheswm dros ddewis addysgu eu plant yn y cartref. Nododd 27% arall bryder, bwlio, erlyniad am ddiffyg presenoldeb, angen meddygol y plentyn, methiant i ddiwallu anghenion AAA/ADY yn yr ysgol a'r gydberthynas â'r ysgol yn chwalu fel y rheswm dros wneud hynny.

Canfu ymchwil a gynhaliwyd gan Goleg Prifysgol Llundain yn 2021/22 ar blant yn y DU â chyflyrau niwroddatblygiadol, presenoldeb yn yr ysgol a rhwystrau i

bresenoldeb, fod anghysondeb rhwng yr addysg a gynigir gan yr ysgol ac anghenion dysgu'r plentyn yn debygol o fod yn sail i broblemau o ran presenoldeb a datgofrestru.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n cael addysg yn y cartref yng Nghymru wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'n darparu £1.7m i awdurdodau lleol yn y flwyddyn gyfredol i gefnogi addysg ddewisol yn y cartref.

Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu cynigion newydd ar gyfer addysg ddewisol yn y cartref, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu dau weithgor sy'n canolbwyntio ar y rhyngwyneb rhwng addysg ddewisol yn y cartref ac ADY a'r pecyn ehangach o gymorth a ddarperir gan awdurdodau lleol. Bydd y gweithgorau'n ceisio nodi arferion gorau wrth weithio gyda theuluoedd dysgwyr sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref, atal y posibilrwydd y caiff plentyn ei ddatgofrestru o'r ysgol, a helpu i ailintegreiddio dysgwyr yn yr ysgol.

## Effeithiolrwydd polisïau a chanllawiau presennol Llywodraeth Cymru

Ni chafnu'r adolygiad presenoldeb unrhyw fylchau mawr ar lefel polisi strategol, ond nododd nifer o feysydd lle y byddai'n fuddiol ailsefydlu, ehangu a chydlynu polisïau ac arferion gorau presennol yn well.

Rwy'n benderfynol o fynd gam ymhellach drwy gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r holl bolisïau yn y maes hwn, gan sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar y plentyn, yn seiliedig ar hawliau ac wedi'u llywio gan drawma. Bydd hyn yn cynnwys adolygu polisïau presennol Llywodraeth Cymru ar bresenoldeb a gwahardd.

Nododd yr adroddiad hefyd y gydberthynas rhwng cyfraddau presenoldeb sy'n gwaethygu a phroblemau ymddygiadol ac emosiynol dilynol, a all, oni chânt eu datrys, arwain at wahardd y dysgwyr hyn o'r ysgol. Mae hyn yn atgyfnerthu'r angen i ystyried y polisïau hyn a'u hadolygu ar yr un pryd.

Rwy'n ymwybodol iawn hefyd o'r dysgwyr agored i niwed hynny y gwyddom y gallant gael eu gwahardd yn barhaol neu am gyfnod penodol yn anghymesur; mae hyn yn cynnwys, ymhlith eraill, dysgwyr ethnig lleiafrifol a dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig/ADY; yn ogystal â dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal a gofalwyr ifanc. Bydd hyn yn ffactor arall a fydd yn llywio'r gwaith o ddatblygu ein polisi newydd yn y maes hwn.

Mae'n hanfodol bod gan bob ysgol bolisi presenoldeb clir. Er mwyn helpu i sicrhau hyn, byddaf yn gofyn i bob ysgol gyhoeddi ei bolisi presenoldeb. Dylai'r polisi hwn nodi dull ysgol gyfan, gan amlinellu sut y bydd yr ysgol yn mynd i'r afael ag absenoldeb dysgwyr a pha gamau gweithredu y mae'n eu cymryd i gefnogi dysgwyr, gan ganolbwyntio'n benodol ar y dysgwyr hynny sydd mewn perygl o fod yn absennol yn gyson.

Fel rhan o'r gwaith hwn, byddwn hefyd yn adolygu'r diffiniad o absenoldeb 'cyson', sef absenoldeb o 20% neu fwy ar hyn o bryd. Mae hyn yn fesur pwysig, gan ei fod yn cael ei ddefnyddio'n aml fel meincnod i ysgogi ymyriadau pellach, fel cynnwys y

Gwasanaeth Lles Addysg. Credaf ei bod yn werth ystyried gosod trothwy is ar gyfer ymyrryd, a fyddai'n mynd law yn llaw â mwy o gymorth ar gyfer y gwasanaethau hyn.

## Lefel ac effeithiolrwydd gweithredu a chymorth gan ysgolion, llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru

Mae gan ysgolion rôl bwysig i'w chwarae i hybu presenoldeb effeithiol. Rydym eisoes wedi gofyn i ysgolion gyhoeddi eu polisïau presenoldeb, a byddwn yn diwygio ein canllawiau ac yn esbonio ein disgwyliadau o ran y camau gweithredu i'w cymryd yn yr ysgol fel bod disgwyliadau clir i ysgolion a chyrff llywodraethu o ran lefel y cymorth presenoldeb y dylid ei roi i ddysgwyr a'u teuluoedd. Byddwn yn cyfeirio at arferion effeithiol yn yr ysgol o ran monitro presenoldeb a chymryd camau dilynol pan fo disgyblion yn absennol. Fel rhan o'r dull gweithredu hwn, rydym yn ymrwymedig i ystyried ffyrdd cydweithredol o wella presenoldeb a mynediad at ddysgu ymhlith carfanau agored i niwed o ddisgyblion, er enghraifft y rhai sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim.

Mae gan Wasanaethau Lles Addysg rôl bwysig i'w chwarae yn cefnogi ysgolion a theuluoedd i sicrhau bod pobl ifanc yn mynychu'r ysgol ac yn dysgu. Rydym yn cydnabod bod y Gwasanaethau Lles Addysg wedi gweithio'n eithriadol o galed gydag ysgolion a theuluoedd yn ystod y pandemig, a'u bod yn parhau i wneud hynny.

Rydym yn ymrwymedig i rannu arferion effeithiol ymhlith Gwasanaethau Lles Addysg er mwyn sicrhau dull gweithredu mwy cyson a nodi arferion gorau ledled Cymru fel bod yr arferion hyn yn cael eu rhoi ar waith yn fwy cyson.

Yn ystod y pandemig, ymhlith dysgwyr Blwyddyn 11 y mae presenoldeb wedi bod ar ei waethaf. Er mwyn helpu dysgwyr i baratoi ar gyfer arholiadau, gwnaethom ariannu gwerth £1.28m o gymorth pontio penodol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 11 i'w helpu i ddatblygu'n hyderus, a gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am eu camau nesaf, gan gynnwys addysg bellach ac addysg uwch.

Ar gyfer 2020-21 a 2021-22, mae £8.5m o gyllid pontio penodol yn cael ei ddarparu bob blwyddyn i golegau addysg bellach a dosbarthiadau chwech mewn ysgolion er mwyn helpu pobl ifanc i bontio i gam nesaf eu haddysg neu yrfa. Mae hyn yn galluogi darparwyr i gynnal gweithgareddau fel sesiynau rhagflas a digwyddiadau pontio eraill, yn ogystal â darparu cymorth mentora, cyngor ac arweiniad a thiwtora ychwanegol.

Mae Gyrfa Cymru yn ystyried ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer profiad gwaith pwrpasol gan ganolbwyntio ar ddysgwyr TGAU sydd wedi ymddieithrio o addysg. Yn 2022, bydd Gyrfa Cymru hefyd yn gallu cynnig 100 o leoliadau ychwanegol o'r fath.

Mae trafodaethau â rhanddeiliaid o sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu seiliedig ar waith wedi dangos ei bod hi'n anodd recriwtio staff i feysydd galwedigaethol penodol ar hyn o bryd, a allai fod yn rhwystr i ehangu rhai llwybrau galwedigaethol. Mewn partneriaeth â Chyngor y Gweithlu Addysg, bwriedir cynnal ymgyrch farchnata yn ystod gwanwyn 2022 er mwyn codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd i ymuno â'r gweithlu addysg yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru, ar y cyd â'n partneriaid, yn ymrwymedig i sicrhau y caiff newidiadau eu gwneud er mwyn helpu dysgwyr i gwblhau eu hasesiadau'n llwyddiannus. Mae'r rhain yn cynnwys addasiadau helaeth i drefniadau mynediad asesiadau ac i asesiadau eu hunain. Ar gyfer 2021/22, mae CBAC wedi gwneud amrywiaeth o addasiadau i gynnwys cyrsiau, yn ogystal â darparu adnoddau dysgu ac adolygu ar gyfer arholiadau ychwanegol. Mae hyn yn cydnabod y tarfu sydd wedi effeithio ar garfannau presennol o ddysgwyr. Y nod yw eu helpu i wneud y defnydd gorau o'u hamser, gan gyflawni eu cymwysterau o fewn yr amserlen y byddent yn ei disgwyl fel arfer.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd angen mwy o amser a chymorth ar ddysgwyr penodol i gwblhau eu cyrsiau cymhwyster o ganlyniad i'r tarfu a achoswyd gan y pandemig. Bydd yn parhau i ddarparu'r adnoddau ychwanegol sydd eu hangen ar ysgolion a cholegau i gefnogi dysgwyr drwy flwyddyn academaidd 2021/22 a 2022/23. Bydd dysgwyr y mae angen iddynt ailsefyll blwyddyn o'u hastudiaethau chweched dosbarth neu goleg, neu ailsefyll asesiadau TGAU ar ôl iddynt symud ymlaen i'r chweched dosbarth neu'r coleg, yn cael eu cefnogi i wneud hynny. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud newidiadau fel y gall dysgwyr sy'n symud ymlaen i'r chweched dosbarth neu'r coleg y mae angen iddynt ailsefyll TGAU Mathemateg, Saesneg a/neu Gymraeg ochr yn ochr â'u prif gyrsiau, wneud hyn heb orfod talu ffi ailsefyll. O ran cymwysterau sydd ag amseroedd cwblhau hyblyg, fel llawer o gymwysterau galwedigaethol, byddwn yn cefnogi darparwyr os bydd angen iddynt ddefnyddio'r cyllid parhaus sy'n gysylltiedig â'r pandemig a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i gynnig mwy o amser i ddysgwyr penodol gwblhau eu cyrsiau'n llwyddiannus yn 2022.

Fodd bynnag, nid oes unrhyw gynlluniau i gyflwyno cyfleoedd ychwanegol i sefyll arholiadau yn ystod y flwyddyn academaidd.

Un o'r dangosyddion allweddol a ddefnyddir i nodi pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio o addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET) yw presenoldeb yn yr ysgol. Mae'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid ('y Fframwaith') yn cynnig dull systematig o nodi pobl ifanc y mae angen cymorth arnynt, er mwyn rhoi'r ddarpariaeth angenrheidiol ar waith i fonitro eu cynnydd tuag at addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Yn atgyfnerthu'r Fframwaith mae ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu. Yn dilyn ymgynghoriad yn 2020, mae'r Fframwaith yn cael ei ehangu i gynnwys atal digartrefedd ymhlith pobl ifanc. Mae'r canllawiau ar y Fframwaith wrthi'n cael eu diweddaru a byddant yn cael eu cyhoeddi eleni. Yn dilyn hyn, byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddiweddaru ein canllawiau ar adnabod pobl ifanc y mae angen cymorth arnynt o dan y Fframwaith yn gynnar.

Byddai swyddogion ymgysylltu â theuluoedd cyffredinol yn amhrisiadwy wrth helpu i adnabod y bobl ifanc y mae angen cymorth arnynt fwyaf, gan gymryd rhan mewn cyfarfodydd amlasiantaethol ynghylch y Fframwaith lle mae sefydliadau partner yn rhannu gwybodaeth berthnasol i sicrhau bod pobl ifanc y mae angen cymorth arnynt gan fwy nag un sefydliad yn cael gwasanaeth di-dor ac effeithiol.

Er nad yw lefelau NEET wedi codi fel yr ofnwyd ar ddechrau'r pandemig, [1]mae hyn yn faes ffocws parhaus wrth i effeithiau'r pandemig barhau i gael eu teimlo. Ein huchelgais yw sicrhau bod o leiaf 90% o bobl ifanc 16 i 24 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant erbyn 2050. Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro cyfraddau NEET er mwyn mesur cynnydd tuag at gyflawni'r garreg filltir hon, a sut mae'r Fframwaith a'r Warant i Bobl Ifanc yn helpu i gyflawni'r nod hwn.

Mae sicrhau y gall dysgwyr ac ymarferwyr gael gafael ar ddeunyddiau adolygu o ansawdd uchel, yn enwedig mewn blynyddoedd pan fydd dysgwyr yn sefyll arholiadau, yn flaenoriaeth o hyd. Byddwn yn parhau i weithio gyda CBAC, Cymwysterau Cymru ac E-sgol i wella'r adnoddau sydd ar gael a sicrhau eu bod yn effeithiol, yn hawdd eu defnyddio ac yn gwbl gyfredol. Bydd hyn yn flaenoriaeth barhaus dros y blynyddoedd nesaf ac, felly, mae'n hanfodol ein bod yn parhau i ddatblygu amrywiaeth helaeth o ddeunyddiau er mwyn cefnogi dysgwyr ac ymarferwyr yn llawn. Ategir hyn gan Strategaeth Dysgu Cyfunol i Gymru, sydd wrthi'n cael ei datblygu. Bydd y strategaeth hon yn cael ei hategu gan ddeunyddiau dysgu proffesiynol o ansawdd uchel. Bydd hyn yn sicrhau bod ymarferwyr a dysgwyr yn cael eu cefnogi'n llawn ac yn parhau i allu cael gafael ar adnoddau o'r ansawdd uchaf yn yr hirdymor.

Fel rhan o'n gwaith ehangach i gefnogi dysgwyr i fynychu'r ysgol, gwnaethom ddarparu £6.4m o gyllid Gaeaf Llawn Lles yn ystod y flwyddyn academaidd hon i bob ysgol yng Nghymru. Roedd y fenter hon yn helpu pob dysgwr i fanteisio ar ddarpariaeth lles corfforol, emosiynol a chymdeithasol ac yn creu mannau diogel ar gyfer chwarae rhydd a gweithgarwch corfforol lle y gallai plant a phobl ifanc feithrin/adfer eu sgiliau cymdeithasol. Roedd menter Gaeaf Llawn Lles yn annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol, diwylliannol a chorfforol y tu allan i ddysgu ffurfiol drwy gynnig gweithgareddau am ddim yn Gymraeg a Saesneg ledled Cymru gyfan.

Rydym hefyd wedi cynnal treial cenedlaethol ar raddfa fach yn ddiweddar, gan warantu pum awr yr wythnos o weithgareddau cyfoethogi i grwpiau o ddysgwyr dros gyfnod o 10 wythnos yn ystod y flwyddyn academaidd hon. Gwirfoddolodd yr ysgolion i gefnogi dysgwyr difreintiedig, gwella mynediad at gyfalaf cymdeithasol a diwylliannol a helpu i fynd i'r afael ag effeithiau pandemig COVID-19 ar ddysgu. Cafodd mwy na 1,800 o ddysgwyr fudd uniongyrchol o'r gweithgareddau cyfoethogi hyn.

Rydym yn dilyn dull gweithredu sy'n seiliedig ar fodelau rhyngwladol a chynigion a wnaed gan y Sefydliad Polisi Addysg. Gwyddom y gall cefnogi dysgwyr i fanteisio ar amrywiaeth eang o weithgareddau, gan gynnwys y celfyddydau a chwaraeon yn ogystal â gweithgareddau cymdeithasol a rhaglenni academaidd, fod yn fuddiol i gyrhaeddiad, lles, a chydberthnasau ehangach. Dengys ymchwil y gall rhaglenni sy'n cynnig cymorth a sesiynau ychwanegol sy'n cymell ac yn cyfoethogi dysgwyr i

---

[1] Ar y cyfan, ers inni gyflwyno'r Fframwaith, mae ffigurau NEET wedi aros yn gymharol sefydlog: roedd 12,000 (10.8%) o bobl ifanc 16 i 18 oed yn NEET yn 2014, o gymharu â 11,300 (11.1%) yn 2020 (yn seiliedig ar ffigurau dros dro ar gyfer 2020 o gyfres Cyfranogiad pobl ifanc mewn addysg a'r farchnad lafur Llywodraeth Cymru).

ailgydio mewn dysgu, gael effaith fwy ar gyrhaeddiad na'r rhai sy'n gyfan gwbl academaidd eu naws.

## Pa mor effeithiol y caiff rhieni gymorth a'u cynnwys

Rydym yn cydnabod y rôl bwysig y mae rhieni/gofalwyr yn ei chwarae yn nysgu eu plant. Rhieni yw athro cyntaf plentyn, a byddant yn parhau i fod yn rhan o'i daith dysgu hyd nes y bydd yn oedolyn. Felly, mae'n hanfodol ein bod yn cynnwys pob rhiant/gofalwr, yn arbennig y rheini o gefndiroedd mwy difreintiedig, yn nysgu eu plant er mwyn iddynt allu deall yn well yr hyn y gofynnir i'w plant ei wneud a meithrin y sgiliau i'w cefnogi.

Felly, byddwn yn cyfathrebu mwy â rheini a gofalwyr, gan fynd i'r afael ag unrhyw bryderon sydd ganddynt o hyd a phwysleisio pwysigrwydd mynychu'r ysgol.

Fel rhan o'n gwaith i ddiwygio'r Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan, byddwn yn ystyried rhannu a lledaenu arferion gorau mewn perthynas â gwella presenoldeb. Bydd hyn yn cynnwys y ffordd orau y gall ysgolion gynnwys dysgwyr a'u teuluoedd, a chynnig datblygiad proffesiynol pwrpasol.

Rydym am i bob ysgol yng Nghymru fod yn Ysgol Bro – gan ymateb i anghenion ei chymuned, meithrin partneriaeth gref â theuluoedd/gofalwyr a chydweithio'n effeithiol â gwasanaethau eraill. Gan gydweithio ar draws yr ysgol, y cartref a'r gymuned, gallwn gefnogi ein plant a'n pobl ifanc yn fwy effeithiol.

Dros y misoedd nesaf, byddwn yn buddsoddi £3.84m i gynyddu nifer y swyddogion ymgysylltu â theuluoedd a gyflogir gan ysgolion. Bydd gweithio gyda theuluoedd i wella presenoldeb yn rhan allweddol o rôl y swyddogion hyn.

Gall swyddog ymgysylltu â theuluoedd (neu debyg) sicrhau y caiff partneriaethau cadarnhaol eu meithrin â theuluoedd, ac y caiff cymorth a gwasanaethau pwrpasol eu cynnig. Gwyddom y gall yr aelodau ychwanegol hyn o staff fod yn adnodd hynod effeithiol mewn ysgolion i estyn allan at rieni a gofalwyr a'u cynnwys yn nysgu eu plant.

Rhan fawr o'u rôl yw cefnogi presenoldeb a gweithio gyda theuluoedd i annog eu plant i wella eu presenoldeb ac ailgydio mewn dysgu ar ôl y pandemig. Gwyddom fod athrawon yn aml yn ei chael hi'n anodd estyn allan at deuluoedd oherwydd pwysau gwaith arall a bydd y rolau hyn yn pontio rhwng yr ysgol a'r cartref.

Bydd y cyllid ar gyfer swyddogion ymgysylltu â theuluoedd yn galluogi awdurdodau lleol i dargedu ysgolion y mae angen capasiti ychwanegol arnynt yn y maes hwn. At hynny, fel rhan o'n gwaith datblygu polisi, byddwn yn cynghori ysgolion ar ymarfer effeithiol swyddogion ymgysylltu â theuluoedd a'r dysgu proffesiynol ehangach sydd ei angen.

Rydym hefyd yn darparu £660k i dreialu swyddi Rheolwyr Ysgolion Bro yng Nghymru. Bydd y rolau hyn yn helpu i feithrin cydberthnasau gwell rhwng ysgolion a'u cymunedau. Bydd gwerthuso'r rolau hyn yn helpu i lywio gwaith llunio polisi yn y dyfodol.

Jeremy Miles AC
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg